# y Garthen

PAPUR BRO DYFFRYN TEIFI Ebrill 2020 75c


## CFFI PONTSIAN YN CIPIO CWPAN CYMRU!

### Strocen i CFfI Pontsiân ym myd y ddrama!



Mae CFfI Pontsiân wedi cael cryn lwyddiant yn ddiweddar wedi iddyn nhw ennill cystadleuaeth y Ddrama Gymraeg nid yn unig ar lefel Ceredigion, ond ar lefel Cymru hefyd. Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama CFfI Ceredigion yn Theatr Felin Fach ganol mis Chwefror (16-20). Yn ogystal â chipio'r wobr am y Ddrama Orau, enillodd CFfI Pontsiân - gyda'u perfformiad o'r comedi 'Oli' - wobrau am y sgript orau, y set gorau a'r cynhyrchwyr gorau.

Enillodd Endaf Griffiths wobr yr Actor Hŷn Gorau, gyda Cennydd Jones yn drydydd; a Glesni Thomas wobr yr Actores Hŷn Orau.

Cafwyd strocen arall yng Ngŵyl Adloniant CFfI Cymru yn y Galeri, Caernarfon y penwythnos wedyn (Chwefror 29 + Mawrth 1), gyda CFfI Pontsiân yn cael eu coroni'n enillwyr cenedlaethol mewn cystadleuaeth a oedd yn cynnwys dramâu gan chwe ffederasiwn.

Enillodd Endaf Griffiths wobr yr Actor Gorau yn y gystadleuaeth hon hefyd.



Rhoddodd beirniaid y ddwy gystadleuaeth, sef Janet Aethwy ar lefel CFfI Ceredigion a Ffion Dafis ar lefel CFfI Cymru, ganmoliaeth uchel i'r cast a'r cynhyrchwyr, yn ogystal â'r sgriptwyr - Cennydd Jones, Endaf Griffiths a Carwyn Blayney.

Aelodau'r cast oedd Carwyn Blayney, Hanna Parry, Siriol Teifi, Gwion Ifan, Cennydd Jones, Glesni Thomas, Endaf Griffiths, Lowri Thomas a Teleri Evans.

Y cynhyrchwyr oedd Gareth Lloyd, Einir Ryder, Mererid Jones a Lisa Mai.

Adeiladwyr a chludwyr y set oedd Dion Evans, Geraint Blayney, Llyr Rees, Daniel Rees, Sion Jenkins a Meurig Evans.

## Pwy yw Pwy

**Cadeirydd:**
Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Ll.B., B.D.

**BWRDD RHEOLI**
Yvonne Griffiths, Beth Davies,
Aled Eynon, Haulwen Lewis,
Martin Griffiths, Hefina Davies,
Rowena Davies - Franklin
Miriam James, Wenna Bevan-Jones

**PRAWF DARLLENWYR**
Martin Griffiths
Aled Eynon

**BWRDD GOLYGYDDOL**
Yvonne Griffiths,
Guto Prys ap Gwynfor
Peter a Bethan Evans

**CYSWLLT LLEOL**
**Llandysul/Capel Dewi –**
Beth Davies, 01559 362850
Cd1340@cd1340.force9.co.uk
**Pontsian** – Hefina Davies, Cwrt, Pontsian, 01545 590423
**Pencader** –
Ann Phillips, Rhoslwyn
01559 384558
annwyn15@hotmail.com
Mair Jones, Bro'r Hen Wr,
mairggg@icloud.com
**Drefach Felindre –**
Aled Eynon, 07811680497
aoeynon@yahoo.co.uk
Olive Campden, Coed y Pry,
01559 370302
**Prengwyn, Maesymeillion, Tregroes**
Wenna Bevan Jones,
Pantycreuddyn, Prengwyn,
01559 363328
Betty Evans, Caerlyn, Prengwyn,
01559 363610
**Castell Newydd Emlyn** –
Janet Kench, Brynmeillion,
Llandyfriog, 01239 711112
Elgan Jones, Berwyn, 01239 710840
**Rhos/Bryn Iwan –** Miriam James,
Dôl-werdd, Rhos, Llangeler,
01559 370286
**Gwyddgrug** – Yvonne Griffiths,
01559 384468
yvonneg43@gmail.com
**Capel Iwan –**
Rita Davies, Arwelfa 01559 370539
Helen Williams, Black Oak,
01559 370392
**Llanfihangel – ar - Arth –**
Meinir Ffransis, Dolwerdd,
Llanfihangel - ar - arth 01559 384378
Mair Wilson, 01559 384283
mair_wilson@hotmail.co.uk

**TREFNYDD CLWB 100:**
**Haulwen Lewis 01559384279**
**haulwen279@yahoo.co.uk**

**CYSODYDD:**
**Rowena Davies - Franklin**
**01559 362104**

**PRAWF DARLLENYDD**
**MIS EBRILL -**
**Martin Griffiths**

**GOLYGYDD**
**MIS EBRILL -**
**Peter a Bethan Evans**

**Gwerthir Y GARTHEN**
yn y canolfannau canlynol –
**Llandysul –** Siop CK
Siop Ffab
**Pontsian —** Siop Premier
**Pencader —** Siop Premier
Siop Flodau Tŷ Gwyrdd
**Alltwalis –** Siop Windy Corner
**Drefach Felindre –** Siop Spar
Swyddfa'r Post
**Saron –** Garej Bargod
**Castell Newydd Emlyn –**
Gwynnant
**Caerfyrddin –** Siop y Pentan,
**Llanllwni –** Swyddfa'r Post
**Aberteifi –** Siop Awen Teifi
**Aberaeron** – Llanon House
**Penrhiwllan** - Siop Popeth
Mae **Siop Deithiol Talgarreg** yn gwerthu'r **Garthen** hefyd,
**neu drwy law y cyswllt lleol.**

**Tanysgrifiadau blynyddol tu allan i'r dalgylch** —
Y Garthen drwy'r post
Yvonne Griffiths,
Y Felin,
Gwyddgrug,
Pencader,
SA39 9AX .Ffôn: 01559 384468
**e-bost: yvonneg43@gmail.com**
**£14.50 am 10 rhifyn**

**Dyddiad derbyn deunydd**
**Rhifyn Mai :**
**Ebrill 23**
Os yn bosib, anfonwch eich cyfraniadau ar
e-bost mewn **FFURF WORD YN UNIG**
os gwelwch yn dda at:
**ygarthen@yahoo.com**

**Ni allwn dderbyn cyfraniadau fel rhan o ebost na PDF.**
Argraffwyr: E.L. Jones a'i Fab, Aberteifi
01239 612251
e-bost: eljonesaifab@btinternet.com

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

AWEN TEIFI
23 Stryd fawr, Aberteifi

Llyfrau Cymraeg, Cryno ddisgiau, cardiau,
teganau i blant o bob oed, crysau,
Lluniau gwreiddiol a phrintiadau o
waith Aneurin Jones a Meirion Jones

01239 621370

DAI LEWIS
DAVID LEWIS FRICS
Cysyllter â'r Arbenigwyr
(sy'n Gymry Cymraeg)
os rydych am werthu neu brisio
eich fferm, tyddyn, tŷ neu fwthyn
Ffoniwch:
Llandysul 363401 C. N. Emlyn 710481

Peiriannau Gardd
Dyffryn Teifi
DREFACH FELINDRE
01559 371093 07445326870
Peiriannau Gardd Gwerthu a Gofalu
Y Gwasanaeth Gorau Bob Amser
e-bost teifivgm@totalserve.co.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Nid yw Pwyllgor Y Garthen na'n noddwyr o angenrheidrwydd yn cytuno gyda phob barn yn y papur

# MYFYRDOD

"Does neb sy'n fyw yn awr wedi profi'r fath beth a hyn o'r blaen!" Dyna a glywn yn aml ar y radio a'r teledu - mae e'n wir!

Nid nad oes pandemic o bob math wedi digwydd o'r blaen, does neb yn y fro hon yn ddigon hen i gofio am ffliw 1918 a laddodd mwy o bobl nag a laddwyd yn y Rhyfel Mawr! Ymledodd y ffliw yn hynod o glou oherwydd bod miliynau o filwyr gyda'i gilydd yn y gwersylloedd wrth iddynt aros i gael dychwelyd i'w cartrefi.

Nid ydym yn gwybod yn iawn beth oedd yn gyfrifol am y pla hwn, y Covid-19. Er hynny fe wyddwn ei fod yn ganlyniad i'r ffordd y mae pobol yn camdrin y byd naturiol. Mae ei ymlediad sydyn yn gysylltiedig â'r ffordd y mae pobol wedi adeiladu'n gwareiddiad gyda'r pwyslais ar gael i'r dinasoedd gyda'r gallu i hedfan i bellafoedd byd yn glou. Mae hyn yn digwydd ar raddfa byd eang - dyma un o ganlyniadau'r globaleiddio y clywn gymaint amdano.

Un peth sy'n sicr, os ydym am osgoi digwyddiadau fel hyn yn y dyfodol bydd yn rhaid inni newid ein blaenoriaethau mewn bywyd.

Daeth y Pla Melyn i Gymru yn y flwyddyn 547. Fe effeithiodd ar fywyd y genedl yn ddirfawr. Dyma oes Dewi Sant a'i gefnder Tysul a llu o saint eraill. Bu'n rhaid i'r bobol bryd hynny ail-ystyried eu gwerthoedd ac o ganlyniad, oherwydd llafur Dewi ag eraill, fe ddaeth Cymru'n wlad Gristnogol.

Mae angen i ninnau ail-ystyried ein gwerthoedd ninnau heddiw. Mae’r pla hwn yn rhoi’r cyfle inni wneud hynny. Nid dychwelyd i fywyd ‘normal’ ddylai fod yn ddymuniad inni – y ‘normal’ hwnnw yw’r broblem!

**Guto Prys ap Gwynfor**

## Covid - 19

Dyma ni yn cyhoeddi’r Garthen ar-lein am y tro cyntaf. Gobeithio y cewch chi flas i’w ddarllen.
Fel y gwyddoch nid oedd modd ei gyhoeddi yn y ffurf arferol.
Mae’r firws ofnadwy sydd yn mynd drwy’r wlad yn effeithio pawb,
a dymunwn i bawb bob cysur wrth hunan ynysu, ac i gadw yn iach.
Rhaid cofio ein bod yn hunan ynysu er ein mwyn ein hunain a’n teuluoedd, ein cyd-drigolion, a’r bobl sydd yn gweithio yn galed iawn, gweithio oriau hir er mwyn eraill. Y lleiaf allwn ni wneud yw aros yn ein cartrefi, efallai yn anodd i rai ond rhowch eich hunain yn sefyllfa’r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid.
Mi ddaeth digon a ddeunydd i’r Garthen mis hwn, ond gan na chynhelir unrhyw ddigwyddiadau yn awr am gyfnod amhenodol, ni fydd modd cyhoeddi’r Garthen y misoedd nesaf.
Ni chyhoeddir copi caled gan na fydd yn bosibl ei ddosbarthu.
Mae yn amser adnewyddu taliadau i’r Clwb Cant, cewch wybod beth fydd yn digwydd ar ôl i’r pwyllgor gyfarfod nesaf pryd bynnag fydd hynny.
Gobeithio fydd darllen y Garthen yn electroneg yn eich ysgogi i brynu’r Garthen yn fisol,
neu i danysgrifio i’w dderbyn drwy’r post. Cysylltwch ag aelod o’r pwyllgor i ddatgan eich diddordeb.
Diolch i gwmni Bro360 am ein hannog i gyhoeddi yn electroneg, ac am eu cymorth i wneud hynny.



# LLANDYSUL

## BORE PANCWS

Mor braf oedd cael mwynhau y bore pancws yn Neuadd Eglwys Llandysul ar fore Dydd Mawrth Ynyd. Diolch arbennig i Mrs Enfys Wyse am eu gwneud ar ein cyfer. Pawb yn mwynhau y pancws a`r sgwrsio. Enillwyr y raffl oedd Nest James, Pontweli, Emma Jones, Llandysul, Judith Roberts, Gorrig, Bet Jones, Pontweli, Mary Jones, Parc yr ynn, Jenny Jones Llandysul, Mike Butler, Gorrig ac Eirlys Evans, Llandysul. Diolch arbennig i bawb a fu`n helpu gyda`r te. Mae Beth hefyd yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y blynyddoedd o fewn y gwasanaethau, ac hefyd gyda`r boreau coffi. Cyflwynwyd rhodd i`r Parch Beth Davies am ei gwasanaeth i`r plwyf cyn iddi symud i AWL Aeron Bro Mydr ar ddechrau mis Mawrth.

## CWRDD GWEDDI BYD - EANG

Cynhaliwyd Cwrdd Gweddi Byd-eang eleni yn Neuadd yr Eglwys ar nos Wener, Mawrth 6ed. Cymerodd aelodau'r gwahanol eglwysi ran. Bu'n brofiad bendithiol i bawb. Gwragedd o Zimbabwe oedd wedi llunio'r gwasanaeth. Profiad cyffrous yw cael cyd-weddio gyda miliynau o bobl eraill ar draws y byd.




## CYMRODORION

Cafwyd noson hyfryd dros ben yng nghwmni Trefor a Rhiannon Pugh o Aberystwyth ar nos Fercher Chwefror 19eg. Y ddau yn sôn ac yn canu am garolau Mai. Noson wefreiddiol gyda phawb yn mwynhau ac yn dysgu yng nghwmni r ddau.

## CLWB CROESO LLANDYSUL

Cafwyd gair o groeso gan Mary, y Llywydd. Roedd dwy o'r aelodau yn dathlu penblwyddi arbennig sef Mrs Dinah Griffiths a Mrs Ann Thomas. Cafwyd llythyr o ddiolch oddiwrth Elusen Cwn y Deillion am yr arian a anfonwyd adeg yr oedfa Nadolig. Mr Richard Davies oedd yng ngofal y sleidiau - gwyliau a thripiau o'r gorffennol a'r presennol. Diolchodd Megan i Richard am y sleidiau ac am ei waith ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd te i orffen.

## EISTEDDFOD LLANFIHANGEL - AR - ARTH

Unwaith eto digwyddiad pwysig a llwyddiannus dros ben. Llawer iawn o gystadlu, ennill, a mwynhad. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn o gystadleuwyr a chynulleidfa eang.

## CLWB 100 SIOE LLANDYSUL

Gwynfor Davies, Pantolwen, Gwyndaf Jones, Blaencwmerwydd, Betty Rees, Beddgeraint a Lisa Mai Jones, Blaencwmerwydd, Horeb.

## DRAMA

Cafwyd noson hyfryd iawn ar nos Wener Mawrth 6ed yn Ysgol Bro Teifi pan perfformiwyd dwy ddrama ddiddorol a mwynhaol dros ben yr un gyntaf gan Clwb Pontsian a ddaeth y gyntaf drwy Gymru yn y gystadleuaeth ddrama eleni ac hefyd eitemau a drama gan Glwb Llanllwni. Roedd yna llawn Neuadd o fwynhad a chwerthin llon. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

# Gŵyl Dewi yn Llandysul




Fore Sul, Mawrth 1af, sef dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig dan nawdd y Cymrodorion yng Nghapel Seion. Daeth tyrfa dda ynghŷd i ddathlu'r ŵyl yng nghwmni plant Ysgol Bro Teifi. Anerchwyd y gynulleidfa gan Y Parch Guto Prys ap Gwynfor, Gweinidog Seion, drwy ganolbwyntio ar y gwerthoedd yr oedd Dewi yn eu pwysleisio fel un oedd yn dilyn Iesu Grist. Pwysleisiodd taw ffordd Iesu o weithredu yw'r ffordd sy'n rhoi gobaith ac ystyr i fywyd, ffordd cariad. Y ffordd honno a ddewisodd Dewi ac mae'r alwad arnom ninnau i ddilyn.

## Cylch Meithrin Alltcafan

Dyma blant Cylch Meithrin Alltcafan yn eu gwisg traddodiadol Cymreig yn dathlu Dydd Gwyl Dewi.





Gwasanaeth defod cychwyn AWL Bro Aeron Mydyr yn Eglwys Ystard Aeron ar nos Lun Mawrth 2ail, ynghŷd â thrwyddedu gweinidogaeth newydd Y Parch. Beth Davies fel offeiriad â Gofal a Deon, a`r Parch Wyn Maskell fel Offeriad â Gofal, ynghŷd â`r Tîm gweinidogaethu yng nghwmni`r Esgob a`r Archddiacon.

# MERCHED GLANNAU TEIFI

**Ionawr -** Cadeiriwyd y noswaith gan ein llywydd Bronwen Jones. Yn ôl ein harfer ym mis Ionawr cafwyd cwis wedi ei drefnu gan un o'n haelodau sef Wendy Davies. Cafwyd noswaith hwylus dros ben a mawr yw ein dyled i Wendy am baratoi yr holl waith. Diolchwyd iddi gan Barbara Palmer.

**Chwefror** - Estynnwyd croeso mawr i ein gŵr gwadd Dr Rhys Thomas gan y Llywydd, Bronwen Jones. Mae Dr Rhys Thomas yn ben-arbennigwr yn yr Adran Anasthetig yn Ysbyty Glangwili. Siaradodd Dr Rhys am ei yrfa a'i brofiadau- rhai ohonynt yn erchyll- tra ar ddyletswydd fel meddyg gyda'r fyddin.
Siaradodd hefyd am ei gyfraniad clodwiw yn sefydlu gwasanaeth arbennigol gydag Ambiwlans Awyr Cymru. Mae y gwasanaeth hyn yn unigryw i Gymru a does dim tebyg yn yr holl fyd. Diolchwyd iddo gan Ann Phillips.

**Mawrth** - Dathlwyd dydd Gwyl Dewi gyda chinio traddodiadol yng Ngwesty'r Porth yng nghwmni ein gwraig wadd, Dr Sioned Thomas. Croesawyd hi fel un o blant ardal Dyffryn Teifi gan ein Llywydd, Bronwen Jones. Cawsom noson hwylus iawn yn olrhain hanes a ffeithiau ar ffurf dyddiadur am y mis yma sef Mawrth. Diolchwyd i Sioned gan Yvonne Bowen.
Mae yna groeso i unrhyw un ymuno â ni yn fisol, cysylltwch â Bronwen Jones 01559 371348, Barbara Palmer 01559 384403, Rhian Thomas 01559 362418 neu unrhyw un o'r aelodau.

# CLWB CROESO

Estynnodd Mary groeso i'r aelodau i gyfarfod mis Mawrth yng Ngwesty'r Porth. Dymunodd wellhád buan i Valmai Owen ar ol ei llawdriniaeth a derbyniwyd diolch oddi wrth Anne Thomas a Dinah Griffiths am yr anrhegion a dderbyniasant ar ddathlu penblwydd arbennig. Roedd llythyr wedi dod o'r gangen leol o Ferched y Wawr yn gofyn os oedd rhai o aelodau Clwb Croeso am ymuno â nhw ar daith ym mis Mehefin i'r Ysgwrn, Trawsfynnydd, sef cartref Hedd Wyn. Ym mis Medi bwriad y Clwb yw cael taith o amgylch Sir Benfro a chael te prynhawn ar y ffordd adref; enwau a blaendal i'r swyddogion fis nesaf. Gŵr gwadd y mis yma oedd Mr. Hugh Murphy o Fferm Ceffylau Gwedd, Eglwyswrw. Cafwd tipyn o hanes y fferm ganddo a soniodd am rai o'r gwesteion oedd wedi ymweld â'r fferm. Dywedodd ei fod yn un o ddisgynyddion o'r teulu sydd wedi bod yno ers 1849. Lynda Thomas oedd yn lwcus i ennill y raffl ac estynnodd Bronwen Jones ddiolch i bawb ac i Westy'r Porth am y te. Oherwydd sefyllfa iechyd y wlad ni fydd Clwb Croeso yn cwrdd eto tan fis Medi. Cadwch yn ddiogel bawb.



# Newyddion o Lyfrgell Llandysul

Cynhaliwyd ail barti blynyddol gwirfoddolwyr Llyfrgell Llandysul ar nos Wener Mawrth 6 yn yr Half Moon, Pont-Tyweli. Roedd hon yn noson arbennig iawn i'r gwirfoddolwyr wrth iddynt gymdeithasu a'i gilydd a chael hwyl wrth fwynhau bwffe ardderchog. Gan fod Uwch Siryf Dyfed, Mrs Helena Lewis, wedi ymuno â ni, roedd eleni yn fwy arbennig fyth. Cyflwynodd dystysgrifau i'r gwirfoddolwyr gan gydnabod eu gwasanaeth i'r Gymuned.
Mae Grŵp Cefnogwyr Llyfrgell Llandysul yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llyfrgell Ceredigion i gynnal Llyfrgell Llandysul fel bod darllenwyr yn cael mynediad i wasanaethau Llyfrgell Ceredigion sy'n cynnwys llyfrau, llyfrau electronig, DVD, Llyfrau Llafar, Rhyngrwyd a WIFI am ddim, ffotocopïo, gwasanaeth argraffu a sganio. Erbyn hyn, mae 32 o wirfoddolwyr yn gweithio mewn parau ar ddydd Mawrth, dydd Iau, a bore Sadwrn, gyda gwirfoddolwyr sy'n glanhau'r llyfrgell ac yn cynnal yr ardd tu allan, ac yn cynorthwyo gyda digwyddiadau. Os ydych am ymuno â ni fel gwirfoddolwr, dewch i'n gweld yn Llyfrgell Llandysul neu e-bostiwch llyfrgell@llandysul.cymru.

# EGLWYS SANT LLAWDDOG, PENBOYR

Dymuniadau gorau i'r Parchedig Beth Davies yn ei gofalaeth newydd yn Nyffryn Aeron a'r cyffiniau. Byddwn yn gweld ei heisiau a diolch o waelod calon iddi am ei gwasanaeth a'i holl ymroddiad i'r achos ym Mhenboyr dros y blynyddoedd diwethaf. Ar Sul 15fed Mawrth daeth y Parchedig Gareth Reid atom ni i weinyddu'r cymundeb. Diolch iddo am ei wasanaeth.

# MERCHED Y WAWR BARGOD TEIFI

Bu'r flwyddyn eleni yn flwyddyn arbennig iawn gyda chyfarfodydd diddorol, addysgiadol, hwyliog a buddiol. Stella Jones fu'n llywyddu'r holl weithgareddau, Eleri Samson yn trefnu'r gweithgarddau, Meiris Rees yng ngofal y cofnodion a Minnie Davies yng ngofal yr arian. Bu'r aelodau eraill wedyn yn cydweithio i baratoi'r te a gweithgareddau eraill.

Er mwyn cydeithasu gymdeithasu a dod i adnabod ein gilydd, cawsom gwis amrywiol iawn i ddechrau'r flwyddyn. Pob math o bosau ac roedd gofyn defnyddio ein holl dalentau i chwilio am atebion. Eleri oedd am baratoi y cwis a hi oedd y cwisfeistres.

Daeth Meleri Bowen o Lanpumsaint atom fis Hydref i sôn am iacháu holistaidd a hithau newydd raddio i gyflawni triniaethau o'r fath. Cawsom gyfle i brofi ychydig ar y math yma o driniaethau.

Talwyd ymweliad â'r Cynulliad ym Mae Caerdydd hefyd ym mis Hydref a chafwyd taith bleserus ac addysgiadol iawn. Roedd pawb yn gysurus gydag Alan wrth y llyw a chafwyd pryd blasus i orffen y daith yn Llangennech.

Do, fe aeth nifer i ymweld â gweithdy Jin Talog mis Tachwedd. Rhyfeddwyd pawb fel y bu i'r fenter lwyddo mewn cyn lleied o amser. Roedd y cyfle i flasu'r jin yn dderbyniol iawn. Noson i'w chofio.

Erbyn hyn roedd Nadolig wrth y drws. Daeth Maifis Griffiths atom o Langoedmor i ardddangos sut i wneud torchau Nadolig i roi ar ddrysau, beddau neu unrhyw le a dweud y gwir. Cawsom lawer i awgrym gwerthfawr ganddi ac aeth pawb ati o dan ei chyfarwyddyd i wneud addurn gwerth ei weld.

Hei Ho ! ac roedd yn 2020 . Dechrau arbennig i'r flwyddyn yng nghwmni Emyr Wyn Jones o Gaerfyrddin – cyn-drefnydd cerdd Sir Gaerfyrddin a Dyfed cyn hynny. Dyma noson a erys yn hir yn y cof wrth iddo sôn sut i gerddoriaeth ddylanwadu cymaint ar ei fywyd ac am y gwaith gwirfoddol y mae'n dal i'w wneud er mwyn helpu eraill yn y maes. I orffen, cawsom unawd safonol iawn ganddo.

A dyna ni am nawr, cewch ragor o'n helyntion ni maes o law.

# Merched Y Wawr Pencader a'r Cylch Chwefror 2020

Daeth aelodau'r gangen ynghŷd i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi mewn cinio yn Nhafarn Gwarcefel, Prengwyn ar y 25ain Chwefror, 2020. Croesawyd pawb gan ein llywydd, Mrs Fioled Jones gan gynnwys dau ŵr dewr sef Tom Lewis a Dafydd Jones, a'n siaradwr, Mrs Anne Thorne o Lanllwni.

Ar ôl cinio croesawyd Mrs Thorne yn swyddogol i'n plith. Roedd gan nifer o'r aelodau atgofion amdani yn cystadlu mewn cystadlaethau cenedlaethol Merched Y Wawr. Merch o Gwm Nedd yw Mrs Thorne yn wreiddiol ond mae hi a'i gŵr, David, wedi ymgartrefi ers blynyddoedd ac wedi magu eu plant yn yr ardal hon. Mae'r ddau wedi gwneud gwaith aruthrol i hybu ac amddiffyn ein hiaith a'n diwylliant.

Cawsom wledd o hanesion a storïau yn ystod y prynhawn. Codi testun wnaeth Mrs Thorne o lyfr Between Two Worlds gan Peter Lord sydd yn dilyn hanes merch o Gwm Nedd megis Winifred Coombe Tennant. Ganwyd hi ym 1895 a chafodd addysg oedd yn cynnwys mynychu ysgolion yn yr Eidal a Ffrainc. Priododd yn ifanc i ddyn cyfoethog a byw ei bywyd priodasol yn Cadioxton Lodge. Roedd yn byw bywyd breintiedig iawn ond hefyd yn ofalgar o'i chymdeithas, o ddiwylliant ac o'i gwlad. Roedd yn cefnogi'r Eisteddfod ymysg llawer o bethau celfyddydol gan gynnwys Oriel Glynn Vivian, Abertawe. Bu'n ymgyrchu hefyd i gael pleidlais i wragedd.

Dim ond blas o'r hanes diddorol a gawsom gan Mrs Thorne yw'r uchod ac rydyn fel cangen yn eich hannog i fynd i glywed y stori neu i chwilio am y llyfr os cewch gyfle. Diolchodd Mrs Fioled Jones yn ddidwyll am yr hanes ddiddorol a gawsom yn ystod y prynhawn. Bydd ein cyfarfod nesaf ar 30ain Mawrth lle bydd Non Elias o Melysion Mam yn ymuno gyda ni yn Festri Capel Nonni, Llanllwni am 7 o'r gloch.

Rhifau cyswllt: Fioled Jones 01559384617, Gwyneth Alban 01559384344, Ann Phillips 01559384558.

# Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth a'r Plwyf

Cynhaliwyd Eisteddfod Llanfihangel-ar-Arth a'r Plwyf yn Neuadd Yr Ysgol, Llanfihangel-ar-Arth ddydd Sadwrn Chwefror 29ain 2020. Beirniad Cerdd oedd Ffion Haf, Dryslwyn a'r beirniad Llefaru oedd Dyfrig Davies, Llandeilo. Cawsom ddiwrnod cystadlu o'r safon uchaf trwy'r dydd a nos gyda'r beirniaid yn rhoi canmoliaeth uchel i'r cystadleuwyr ym mhob adran.





Llywyddion y Dydd oedd Mr & Mrs Mansel Griffiths, Anwylfan, Llanfihangel-ar-Arth a hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iddynt am eu cefnogaeth i'r Eisteddfod dros y blynyddoedd. Cawson eu cyflwyno i'r gynulleidfa gan Mrs Dawn Rees a rhoddwyd plât a blodau iddynt oddi wrth Bwyllgor yr Eisteddfod. Enillydd Cwpan Coffa Freddy Brooker am ganu emyn oedran cynradd yn yr Adran Gyfyngedig oedd Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni. Cyflwynodd Mrs Wendy Brooker y cwpan i Gwennan a gweler llun o'r ddwy ohonynt isod. Perfformiwr mwyaf addawol yr Adran Gyfyngedig oedd Rhys Gruffydd Davies, Llandyfrïog a chyflwynodd gwpan iddo er cof am y diweddar Mr & Mrs Hughes, gynt o Brownhill, Llanfihangel-ar-Arth.





Parti Disgyblion Bro Teifi enillodd Tarian Valerie Davies yn y gystadleuaeth Parti Canu cynradd lleol. Ioan Davies o Lanfihangel-ar-Arth enillodd Cwpan Coffa Heledd Griffiths am y cais celf gorau gan rywun o oedran ysgol gynradd a chafodd y Cwpan ei gyflwyno iddo gan Mrs Bethan Evans-Phillips, beirniad yr Adran Celf a Llawysgrifen.





Perfformiwr mwyaf addawol yr Adran Agored oedd Alwena Mair Owen, Llanllwni. Roedd y beirniad llawn canmoliaeth am ei pherfformiadau safonol yn yr adrannau llefaru, canu ac offerynnol yn ystod y sesiwn a chyflwynwyd Cwpan Western Power iddi gan Calfin Griffiths ar ddiwedd yr Eisteddfod.



Enillodd Heledd Jones, Saron gwpan Maesybwlch am y drydedd flwyddyn yn olynol gyda pherfformiad meistrolgar yn yr Unawd Offerynnol Uwchradd a oedd yn gystadleuaeth o safon uchel iawn yn ôl y beirniad Cerdd Ffion Haf.



Cafodd Sioned Howells, New Inn, Eisteddfod lwyddiannus iawn unwaith eto eleni gan ennill y wobr gyntaf mewn sawl cystadleuaeth ar y llwyfan. Cipiodd y cwpanau her yn yr adrannau canu a llefaru oed 19 - 25.

Maria Evans gipiodd dau gwpan her am yr ail dro gan ennill y cystadlaethau Darllen o'r Ysgrythur a'r Her Llefaru.



Coronwyd Mrs Carys Briddon o Aberystwyth yn y Seremoni Cadeirio am ei Thelyneg mewn mydr ac odl ar y thema 'Gwawr'. Am y tro cyntaf eleni cafodd y bardd buddugol ac enillydd Tlws yr Ifanc eu gwobrwyo mewn seremoni ar y cŷd. Ianto Jones, Cribyn, Llambed, enillodd Tlws yr Ifanc a chanmolwyd ef yn uchel gan y beirniad Llenyddiaeth Hanna Hopwood-Griffiths am ei gerdd mewn cynghanedd a stori fer gampus. Cafwyd perfformiad hyfryd o gân y Cadeirio gan Deiniol Wyn Rees i gloi'r seremoni.



Enillydd Tarian Gwenllan am y gwaith gorau gan ddisgybl mewn ysgol oedd Lefi Dafydd o Eglwyswrw, dyma'r ail dro'n olynnol i Lefi ennill y wobr hon. Aeth Gwobr Goffa Gwilym Walters am y darn gorau o Ryddiaith i Siân Teifi o Gaernarfon am ei stori fer ar y pwnc 'Gadael'. Raymond Williams o Lanybydder enillodd y Cwpan Her am y paragraff gorau gan ddysgwr am yr ail dro. Canmolodd y beirniad ei gais ar y thema 'E-bost i ffrind'.

**Gweler y canlyniadau llawn ar www.steddfota.org neu www.pencader.org.uk**.

Unwaith eto bu'r eisteddfod yn llwyddiant mawr wrth brofi talent unigolion lleol yr ardal a thu hwnt. Diolch o galon hefyd i'r beirniaid am eu gwaith caled cyn ac ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Diolch hefyd i'n cyfeilydd ffyddlon Lynne James, rydym yn ffodus iawn o'i chefnogaeth i'r Eisteddfod bob blwyddyn. Diolch yn fawr iawn i'r arweinyddion, y stiwardiaid a'r rhai a ddarparodd y lluniaeth, y cystadleuwyr, pob un a ddaeth i gefnogi ac yn olaf y rhai a gyfrannodd yn ariannol, gan gynnwys Cronfa Les Fferm Wynt Statkraft Alltwalis, Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Cymunedau Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni.

## Ruth yn Cynrychioli Pencader yng Nghyfres Deledu FFIT Cymru

**Bydd Ruth Evans o Bencader yn cymryd rhan yng nghyfres deledu FFIT Cymru y mis yma.**

Mae Ruth, sydd yn 45 oed, yn gweithio fel Swyddog Gwirfoddoli i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddoli Ceredigion (CAVO). Mae gan Ruth dri o blant, Carys a Nia, efeilliaid sy'n 18 oed, a Megan, sy'n 15 oed.

Wedi gwneud cais i fod yn rhan o'r gyfres ffitrwydd ac iechyd poblogaidd S4C, roedd Ruth yn llwyddiannus ar ôl mynd trwy'r broses gyfweliadau a phrofion ffitrwydd, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon.

Mi fydd Ruth ymysg pum arweinydd fydd yn ceisio trawsnewid eu ffitrwydd ac iechyd yn ystod y gyfres, drwy ddilyn cynlluniau diet ac ymarfer corff dros gyfnod o saith wythnos.

Mi fydd y pump arweinydd yn derbyn help llaw gan dîm o dri arbenigwr: y seicolegydd Dr Ioan Rees, y dietegydd Sioned Quirke a'r hyfforddwr personol, Rae Carpenter.

Yn amlwg, mae'r pandemig Coronafirws sydd wedi effeithio gymaint ar gymdeithas y wlad wedi effeithio ar y gyfres yn ogystal, ond mae'r cwmni cynhyrchu, Cwmni Da, wedi cyflwyno ffyrdd newydd i gadw mewn cyswllt ac i ffilmio'r arweinwyr.

Bydd holl ymarferion ffitrwydd a bwyd Ruth ar gael ar wefan S4C, s4c.cymru/ffitcymru a chyfrif Youtube FFIT Cymru, le fydd pawb yn gallu dilyn yr un daith â Ruth gyda ryseitiau a fideos dyddiol.

Bydd FFIT Cymru yn cael ei ddangos am 9.00yh bob nos Fawrth, o Ebrill 7, ac ar gael i'w wylio ar alw ar S4C Clic.

**CARTREF HENLLAN**
**Aelwyd gartrefol Gymraeg**
**Bwyd maethlon a gofal arbennig**
**24 awr y dydd**

**Perchennog: Mr G T Williams**
**Metron: Jackie Cannell**
**Is Reolwraig: Camwy Griffiths**
**☎ 01559 3712 93**

ffab
Llandysul
Anrhegion unigryw
Siop Gomerian
Stryd y Gwynt · Llandysul
Ceredigion SA44 4BD
01559 362060
Dilynwch ni ar 'Facebook'

# CFFI CEREDIGION

Rydym wedi cael cyfnod prysur iawn gan arddangos wir ystod gweithgareddau'r Ffermwyr Ifanc, gwaith anhygoel mae'r ffermwyr ifanc yn ei wneud o fewn cymdeithas a'i rôl pwysig yng nghymunedau cefn gwlad, i fagu hyder aelodau drwy berfformio ar lwyfan.

## Noson Iechyd Meddwl

Cafodd Noson Iechyd Meddwl ei chynnal yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn ar Ionawr 31ain, a dyma oedd y tro cyntaf i Glybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro ddod ynghŷd ar gyfer achlysur o'r fath. Daeth tyrfa dda o tua 150 o bobl ynghŷd ar y noson er mwyn gwrando ar banel o siaradwyr a oedd yn cynnwys y cyflwynydd teledu, ffermwr ac actor, Alun Elidyr, yr Hybarch Eileen Davies o 'Tir Dewi', ac Emma Picton-Jones o'r DPJ Foundation. Cadeiriwyd y noson gan y cyflwynydd teledu a'r ffermwraig, Meinir Howells. Cynhaliwyd ocsiwn ar y noson a llwyddwyd i godi swm o £2,400, a fydd yn cael ei rannu rhwng Tir Dewi a'r DPJ Foundation.

## Dramâu'r Sir

Cynhaliwyd Gŵyl Ddrama C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felin-fach dros wyliau hanner tymor, gyda 15 o glybiau'r Sir yn cystadlu a thros 140 o aelodau'n cael y profiad o berfformio ar lwyfan arbennig Theatr Felin-fach. Llongyfarchiadau i bawb oedd wedi cymryd rhan ac yng ngeiriau'r beirniad, Janet Aethwy, "Does gen i ddim byd ond canmoliaeth i chi gyd, rydych chi gyd wedi llwyddo i roi adloniant penigamp i ni". Dyma'r canlyniadau:

**Y ddrama orau**

1. Pontsian
2. Llangwyryfon
3. Llangeitho
4. Troedyraur
5. Llanddewi Brefi
6. Felinfach

**Actor gorau 16 oed neu iau**

1. Bleddyn Lleu Thomas, C.Ff.I. Felin-fach
2. Noa Harries, C.Ff.I. Caerwedros
3. Ifan Davies, C.Ff.I. Llanddeiniol

**Actores orau 16 oed neu iau**

1. Megan Dafydd, C.Ff.I. Llangeitho
2. Cari Davies, C.Ff.I. Tregaron
3. Lois Medi Jones, C.Ff.I. Talybont

**Actor gorau**

1. Endaf Griffiths, C.Ff.I. Pontsian
2. Huw Evans, C.Ff.I. Llangwyryfon
3. Cennydd Jones, C.Ff.I. Pontsian

**Actores orau**

1. Glesni Mai Thomas, C.Ff.I. Pontsian
2. Elin Calan Jones, C.Ff.I. Llangwyryfon
3. Meleri Morgan, C.Ff.I. Llangeitho

**Cynhyrchydd gorau**

1. C.Ff.I. Pontsian
2. C.Ff.I. Llangeitho
3. C.Ff.I. Llangwyryfon

**Set orau**

1. C.Ff.I. Pontsian
2. C.Ff.I. Felin-fach
3. C.Ff.I. Tregaron

**Perfformiad technegol gorau**

1. C.Ff.I. Troedyraur
2. C.Ff.I. Mydroilyn
3. C.Ff.I. Felin-fach

**Sgript orau**

1. C.Ff.I. Pontsian
2. C.Ff.I. Llangwyryfon
3. C.Ff.I. Llangeitho



**Elin Rattray, Trisant yn ennill teitl Aelod Iau Cymru ac Elliw Dafydd, Bro'r Dderi yn dod yn gydradd ail yn y gystadleuaeth Aelod Hŷn Cymru**.

## Aelod Hŷn ac Iau

Trosglwyddodd Megan Lewis, C.Ff.I. Trisant y gadwyn am Aelod Hŷn y Flwyddyn i Elliw Dafydd, C.Ff.I. Bro'r Dderi a throsglwyddodd Alaw Fflur Jones, C.Ff.I. Felinfach dlws Aelod Iau y Flwyddyn i Elin Rattray, C.Ff.I. Trisant. Diolch yn fawr i Megan ac Alaw am eu gwaith diwyd drwy'r flwyddyn.

## Gwŷl Adloniant CFfI Cymru

Daeth tipyn o lwyddiant i Geredigion yn ystod Gwŷl Adloniant CFfI Cymru a gynhaliwyd yn y Galeri, Caernarfon yn ddiweddar. Alaw Fflur Jones oedd yn arwain ar ddydd Sadwrn gan gwblhau ei dyletswyddau fel Aelod Iau C.Ff.I Cymru. Serenodd criw Pontsian gan gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y Ddrama. Endaf Griffiths, Pontsian dderbyniod y wobr am yr Actor Gorau, gyda chanmoliaeth uchel i Gwion Ifan, ac hefyd derbyniodd sgriptwyr Pontsian sef Cennydd Jones, Endaf Griffiths a Carwyn Blayney ganmoliaeth uchel iawn gan y beirniad. Llongyfarchiadau mawr i Elin Rattray ar gael ei dewis yn Aelod Iau y Flwyddyn yng Nghymru ac i Elliw Dafydd ar ddod yn gydradd ail fel Aelod Hŷn.



CFfI Pontsian yn ennill cystadleuaeth y Ddrama yng Nghwŷl Adloniant CFfI Cymru.



Endaf Griffiths, Pontsian yn derbyn y wobr am actor gorau CFfI Cymru

## Cinio Cadeirydd

Cynhelir Cinio Cadeirydd Caryl Haf ac Esyllt Ellis Jones ar nos Iau y 9fed o Ebrill yng Nghwesty'r Marine, Aberystwyth am 7:30yh. Bydd cinio 3 chwrs yn £25 y pen ac ocsiwn i ddilyn. Bydd Dafydd Pantrod a'i fand yn cloi'r noson. Os ydych am fynychu, cysylltwch â'r swyddfa ar 01570 471444 erbyn y 18fed o Fawrth. Edrychwn ymlaen at eich cwmni.




## Gorymdaith Dydd Gwyl Dewi 2020 yn nhref Aberaeron





## Dathlu Diwrnod Llyfrau Rhyngwladol yn Ysgol Gyfun Aberaeron

Ar y 5ed o fis Mawrth i ddathlu Diwrnod y llyfr Rhyngwladol gwahoddwyd Igne o siop lyfrau Waterstones Aberystwyth i ymuno yn y dathliad llyfrau. Cawsom y pleser o'i chwmni yn ystod yr egwyl ac amser cinio, a chafodd y disgyblion fwynhad yn pori drwy'r llyfrau roedd wedi dod gyda hi.Trefnwyd cystadleuaeth gan y Llyfrgell a'r gwobrau o lyfrau wedi'u noddi gan Waterstones. Diolch.

# Tudalen i blant dan 8 oed

Tynewydd, Gorrig, Llandysul

Annwyl Blantos,

Mis arall wedi hedfan heibio gyda`r Gwanwyn ar y ffordd. Rwy’ mor hoff o`r haul a`r tywydd cynnes ond hyd yn oed yn well, mae`r Pasg ar y gorwel ac amser i ni fwyta ein wyau Pasg unwaith eto eleni wrth i ni ddathlu ar Sul y Pasg. Mawr obeithiaf y bydd yr wyau`n deor ac y caf gywion bach eleni eto ac y gallwch weld gwir ystyr y Pasg. Gobeithio hefyd bydd y firws wedi diflannu ac y byddwn yn medru cynnal gweithgareddau diddorol y Pasg a chael ein helfa drysor fel arfer. Cadwch yn ddiogel nes bydd pethau`n gwella.


Diolch i chi am y lliwio hyfryd. I`r brig y tro yma ac yn ennill tocyn llyfr gwerth £5 mae **Elis Evans, Meinigwynion Bach, Gorsgoch, LLanybydder**. Da iawn ti gan ddiolch i bawb am dri’o.

Wrth i ni edrych ymalen i`r Pasg, hoffwn i chi liwio y llun bach yma o`r cyw yn deor allan o`r wy ac fe allwch hefyd roi enw iddo.

Pasg hapus i chi gyd. Peidiwch bwyta gormod o wyau ond mwynhewch bob munud.

Pob hwyl tan y tro nesaf.

**Beth**



**Enw**____________________________________________ **Oed**______

**Cyfeiriad**____________________________________________________